Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Ddwylan

**New Road
Castellnewydd Emlyn
Sir Gaerfyrddin
SA38 9AB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Ddwylan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Y DDWYLAN |
| Awdurdod lleol | Sir Gaerfyrddin |
| Iaith y darparwr | Ddwy ffrwd |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 296 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 250 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 12 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)* | 25% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a)<br><br>(*Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 17% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 20% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | 3% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Medi 2014 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | Hydref 2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 15/5/22 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

**(a)** Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar, cynhwysol a Chymreig lle mae pob un yn teimlo eu bod yn aelod gwerthfawr o dîm. Mae’r disgyblion yn ymddwyn yn dda, ac yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae'r ysgol yn helpu'r disgyblion i barchu amrywiaeth ac i drafod eu teimladau yn aeddfed, gan weithredu ar yr egwyddor, ‘mae’n iawn i beidio bod yn iawn’.

Mae arweinyddiaeth y pennaeth, y llywodraethwyr a'r cydlynwyr eraill yn annog y staff i weithredu’n gyson er budd y disgyblion ac i’w cefnogi i wneud cynnydd yn barhaus. Darperir cefnogaeth lles effeithiol i ddisgyblion a staff sy’n eu cefnogi i gyflawni’n dda.

Mae athrawon a staff cymorth yn cynllunio gweithgareddau diddorol a phwrpasol i’r disgyblion, tra’n rhoi cyfleoedd iddynt hwythau hefyd gynnig syniadau am gynnwys eu themâu. Mae’r staff yn cefnogi disgyblion o bob gallu yn dda ac yn eu cynorthwyo’n effeithiol i wneud eu gorau. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion berchnogaeth ar yr hyn maent yn ei ddysgu, maent yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn dyfalbarhau yn dda ar eu tasgau.

## Argymhellion

A1 Rhannu arferion gorau’r addysgu ar draws yr holl ddosbarthiadau

A2 Sicrhau cysondeb yn nulliau’r athrawon o ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion

A3 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso’u medrau rhifedd mewn meysydd cwricwlaidd eraill

A4 Sicrhau disgwyliadau cyson gan staff wrth gefnogi disgyblion i gyfathrebu yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, lle bo’n briodol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol yn meddu ar fedrau corfforol a chymdeithasol sy'n unol â'r hyn a ddisgwylir. Mae medrau cyfathrebu'r disgyblion yn y Gymraeg yn is na'r disgwyl ar fynediad i'r ysgol. Er hyn, mae bron bob un yn caffael medrau'r Gymraeg yn gyflym. Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd priodol ym mhob agwedd o'u dysgu wrth iddynt fynd trwy'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd wedi eu hadnabod fel disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae bron bob disgybl yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd. Yn gyffredinol, mae medrau llafar y rhan fwyaf yn datblygu'n effeithiol yn y ddwy iaith. Yn y ffrwd Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng ngham cynnydd un yn dechrau datblygu geirfa syml. Er enghraifft, maent yn defnyddio ansoddeiriau fel mawr a bach i ddisgrifio offer o amgylch y dosbarth. Erbyn cam cynnydd dau, mae'r rhan fwyaf yn ehangu eu geirfa yn briodol i sgwrsio am eu gwaith a'u profiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae medrau llafar bron bob un yng ngham cynnydd tri yn adeiladu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Maent yn trafod yn raenus gan ddefnyddio geirfa aeddfed i esbonio'u gwaith, er enghraifft wrth ddisgrifio sut gwnaethon nhw raglennu cymeriad Mr Urdd I oleuo mewn lliwiau amrywiol. Er hyn, mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn tueddu i droi i'r Saesneg wrth gyfathrebu gyda'i gilydd. Yn y ffrwd Saesneg, mae bron bob disgybl yn datblygu eu geirfa Gymraeg yn briodol i ymateb i gwestiynau fel 'Ble rwyt ti'n byw?'. Mae eu meistrolaeth ar y Saesneg yn eu galluogi i siarad yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. Erbyn cam cynnydd tri, mae medrau Cymraeg bron bob un disgybl yn adeiladu'n bwrpasol ar eu gwybodaeth blaenorol. Gyda chymorth, maent yn esbonio'u gwaith yn syml gan ddefnyddio brawddegau estynedig a geirfa briodol gyda pheth cywirdeb. Mae bron bob disgybl yn trafod yn huawdl yn Saesneg.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Yn y ffrwd Gymraeg, mae'r disgyblion yng ngham cynnydd un yn defnyddio ystod briodol o ddulliau ffonig yn hyderus i adnabod llythrennau a'u rhoi at ei gilydd i ffurfio geiriau syml. Yng ngham cynnydd dau, maent yn adeiladu ar eu dealltwriaeth o strategaethau darllen Cymraeg a Saesneg yn llwyddiannus, er mwyn ateb cwestiynau ar destunau penodol. Mae'r rhan fwyaf yng ngham cynnydd tri yn datblygu'n ddarllenwyr ystyrlon yn y ddwy iaith. Maent yn esbonio'r hyn maent wedi ei ddarllen yn llwyddiannus ac yn cyfeirio at froliant llyfr i gael rhagflas o'r cynnwys. Yn y ffrwd Saesneg, mae bron bob disgybl yng ngham cynnydd dau yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o nodweddion testunau llyfrau Cymraeg, er enghraifft wrth ateb cwestiynau am ddeialog rhwng dau gymeriad. Maent yn hyderus wrth ddarllen amrywiaeth o destunau Saesneg, gan gyfeirio at brif ddigwyddiadau a chymeriadau'r stori yn llwyddiannus. Erbyn cam cynnydd tri, mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau darllen Cymraeg yn effeithiol. Maent yn esbonio gyda pheth cywirdeb brif ddigwyddiadau mewn straeon. Mae'r rhan fwyaf yn darllen testunau Saesneg yn hyderus mewn cyd-destunau amrywiol, gan ragfynegi diweddglo stori, ac esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'r dewisiadau.

Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Yn y ffrwd Gymraeg, mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf yng ngham cynnydd un yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ymarfer llunio patrymau yn gywir, sy'n arwain yn naturiol at ffurfio llythrennau yn llwyddiannus. Erbyn cam cynnydd dau, mae'r rhan fwyaf yn dechrau ysgrifennu yn fwy estynedig yn y ddwy iaith, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o ferfau gorchmynnol, er enghraifft wrth ysgrifennu stori greadigol. Mae bron bob un yng ngham cynnydd tri yn dangos dealltwriaeth gadarn o batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn deall nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu yn briodol ac yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn addas, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur Myrddin y Dewin. Yn y ffrwd Saesneg, mae bron bob un yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml yn y Gymraeg, gan ddefnyddio ansoddeiriau yn gywir, er enghraifft wrth ddisgrifio ble maen nhw'n byw. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n fwy estynedig ac yn fedrus yn Saesneg. Gyda chymorth, erbyn cam cynnydd tri, mae bron bob un yn cysylltu brawddegau syml yn y Gymraeg yn gywir, gan ddangos dealltwriaeth gynyddol o'r gynulleidfa.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n hyderus wrth iddynt symud o un cam cynnydd i'r nesaf. Yng ngham cynnydd un, mae disgyblion yn cyfri'n hyderus ac yn defnyddio deunyddiau naturiol fel darnau pren a cherrig bach i greu patrwm sy'n ailadrodd. Maent wrth eu bodd yn twrio yn y twba tywod am 'drysor' i gyfateb â rhif penodol i gymhwyso'u dealltwriaeth o gyfatebiaeth un i un. Mae hyn yn annog y disgyblion i fwynhau mathemateg o oed cynnar.

Mae disgyblion cam cynnydd dau yn adeiladu'n hyderus ar eu dealltwriaeth a'u mwynhad o fathemateg. Maent yn dysgu medrau amrywiol fel adio a thynnu, ynghyd â'r cyswllt mathemategol rhyngddynt. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o werth lle ac maent yn mesur yn gywir mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn dysgu medrau mathemategol newydd mewn gwersi penodol ac yna'n eu defnyddio mewn sefyllfaoedd bob dydd fel rhan o'u thema dymhorol.

Yng ngham cynnydd tri, mae bron bob un yn hyderus yn talgrynnu, amcangyfrif a chyfrifo mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn adeiladu'n dda ar eu dealltwriaeth flaenorol ac yn gwbl hyderus i gymhwyso'u medrau mewn sefyllfaoedd priodol.

Er bod bron bob un o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau mathemategol yn hyderus mewn amrywiol sefyllfaoedd, nid ydynt yn cymhwyso digon o'u medrau rhifedd mewn meysydd cwricwlaidd eraill.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n gadarn. Yn fuan ar ôl cychwyn yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau sylfaenol yn addas. Yng ngham cynnydd un, er enghraifft, maent yn defnyddio'r llechen gyfrifiadurol yn briodol ac yn defnyddio apiau amrywiol sy'n hybu eu medrau llafar. Erbyn diwedd cam cynnydd tri, mae'r rhan fwyaf yn meithrin medrau TGCh da ac yn defnyddio gwahanol raglenni'n llwyddiannus i gefnogi eu dysgu, er enghraifft i godio negeseuon digidol ar gyfer y Nadolig.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau artistig yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Criw Creadigol wedi cydweithio ag arlunydd lleol i greu gwaith celf a chrefft o ansawdd da yn seiliedig ar y stori leol, Gwiber Emlyn. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn cymryd gofal da ohono.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn falch o'u hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr amgylchedd gynhwysol a theuluol sy'n bodoli ynddi. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff ac yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae ymddygiad bron bob disgybl y tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn arbennig o dda. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Mae bron bob un yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn cydweithio a chyd-chwarae'n gytûn. Cefnogir yr ethos o deulu ac empathi at eraill yn hynod effeithiol gan y 'Criw Lles'. Maent yn wyliadwrus iawn ar fuarth yr ysgol ac yn barod i ymateb i unrhyw ofidiau ymhlith eu cyfoedion. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd maent yn cadw golwg dros y gadair garedig, ble caiff disgyblion fynd am seibiant os ydynt yn bryderus yn ystod amseroedd egwyl, gan wybod y bydd rhywun yn dod atynt i'w cysuro.

Mae bron bob disgybl yn deall pwysigrwydd bod yn ddiogel ar-lein. Mae ganddynt ddealltwriaeth aeddfed o beryglon all godi yn sgil defnydd anaddas o'r we. Mae'r rhan fwyaf yn deall sut i gadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys, yfed dŵr a chadw'n heini. Wedi cymryd rhan ymarferol mewn gwersi ymarfer corff rheolaidd, a sesiynau fel y clwb cerdded ar ôl ysgol, mae'r disgyblion hŷn yn dweud yn hyderus bod trefniadau i ymdrin â llesiant yn hynod bwysig i sicrhau bywyd cyflawn. Maent yn trafod yn aeddfed drwy gyfeirio'n aml at y meddylfryd 'mae'n iawn i beidio bod yn iawn'. Mae'r mwyafrif yn credu bod wynebu heriau, gwneud camgymeriadau a dyfalbarhau yn rhan naturiol o ddatblygiad a bywyd pob unigolyn.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon a'r staff cynorthwyol ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith am gyfnodau estynedig yn ystod sesiynau. Mae'r mwyafrif yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hapus i drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion. Maent yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau. Mae llais y dysgwr yn datblygu'n llwyddiannus, er enghraifft wrth iddynt drafod syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn a naturiol o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol a chyfrifol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth aeddfed o'r gwerthoedd hyn gan eu bod yn cael eu hyrwyddo iddynt yn ddyddiol gan y staff. Mae'r disgyblion hŷn yn egluro pwysigrwydd cydraddoldeb yn aeddfed.

Mae'r disgyblion sydd wedi eu hethol ar gynghorau'r ysgol yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Maent yn cydweithio'n effeithiol i gasglu arian tuag at achosion da ac elusennau. Er enghraifft, wrth i'r disgyblion gynnal ymgyrch milltir y dydd, codwyd dros fil o bunnoedd yn ddiweddar tuag at achos Wcráin. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar yn effeithiol.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio'n fwriadus i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Mae'r staff yn cynllunio ar y cyd ac yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu'n uniongyrchol ar gynnwys eu gweithgareddau, sy'n eu hysgogi i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweledigaeth yn seiliedig ar egwyddorion Cwricwlwm i Gymru sy'n berthnasol i'w cyd-destun nhw. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoes sy'n seiliedig ar themâu diddorol ac ystod eang o brofiadau dysgu go iawn sy'n datblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, TGCh ac agweddau creadigol ynghyd â'u hawydd i ddysgu. Er hyn, ni ddarperir cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn meysydd cwricwlaidd eraill.

Trwy ddefnydd cyson o ymwelwyr, arbenigwyr ac ymweliadau â mannau diddorol, mae'r staff yn sicrhau eu bod yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn effeithiol. Er enghraifft, trefnwyd ymweliad yn ddiweddar i gastell y dref gan roi cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio â darlledwr radio lleol i greu podlediad yn seiliedig ar chwedl leol Gwiber Emlyn. Mae'r disgyblion hŷn yn manteisio ar gyfleoedd diddorol fel mynychu cwrs preswyl mewn canolfan ganŵio leol i ddatblygu eu medrau corfforol a'u hannog i fod yn unigolion iach, hyderus ac annibynnol.

Mae'r ysgol yn datblygu ei chwricwlwm i adlewyrchu natur ei chyd-destun yn llawn, yn cynnwys cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol ei milltir sgwâr, Cymru a'r byd ehangach. Er enghraifft, cynhaliodd y pennaeth wasanaeth ysgol gyfan yn ddiweddar i ddathlu amrywiaethau, a rhoddwyd cyfle i'r disgyblion fyfyrio ar sut i fod yn oddefgar o hunaniaeth unigolion eraill. Mae hyn yn cefngoi disgyblion i fod yn unigolion egwyddorol a gwybodus.

Ym mhob dosbarth, mae egwyddorion prif nod yr ysgol, 'Gweithio fel tîm i gyrraedd y nod' yn amlwg iawn. Ceir perthynas waith gefnogol, heriol a chynhyrchiol rhwng yr athrawon, y staff cynorthwyol a'r disgyblion. Mae hyn yn annog parch, cwrteisi ac ymddiriedaeth ac yn cyfrannu'n gadarn at yr ethos o gynhwysiant sy'n bodoli drwy'r ysgol. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o oedolion yn modelu iaith raenus a chywir ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio iaith safonol a chywir yn gyson yn y ddwy iaith. O ganlyniad, mae safonau iaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Er hyn, nid yw disgwyliadau pob oedolyn bob amser yn ddigon uchel wrth annog disgyblion i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol, lle bo'n briodol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer dysgu'n annibynnol drwy weithgareddau chwarae ysgogol yng ngham cynnydd un a'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau eraill yr ysgol yn effeithiol. Trwy gyfrwng nifer o weithgareddau amrywiol, mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn cyflwyno medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn fedrus i'r disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd ystyrlon iddynt ddysgu trwy brofiadau ymarferol yn yr amgylchedd dysgu yn y dosbarth tu mewn a thu allan. Er enghraifft, yng ngham cynnydd dau, mae disgyblion yn datblygu eu medrau datrys problemau yn fuddiol mewn gweithgaredd adeiladu pontydd. Mae'r disgyblion yn manteisio ar amrywiaeth eang o ddarpariaeth chwarae yn y dosbarth tu allan fel y wal ddringo, offer pêl-rwyd a'r ffrâm ddringo. Mae hyn, yn ei dro, yn eu hannog i ddatblygu medrau corfforol da.

Mae'r dosbarthiadau a'r ardaloedd amrywiol eraill yn lleoedd ysgogol a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf a lleiaf abl, ddysgu’n gynhyrchiol. Er enghraifft, mae gwaith disgyblion yn cael ei arddangos yn bwrpasol yn y dosbarthiadau ac maent yn ymfalchïo yn eu llwyddiant. O ganlyniad, mae’r arddangosfeydd yn ysgogol ac yn gyfuniad o rai sy'n dathlu gwaith disgyblion ac eraill sy'n gymorth i’w dysgu.

Mae arferion gorau'r addysgu, sy’n amlwg mewn llawer o'r dosbarthiadau, yn hynod effeithiol. Yn y dosbarthiadau hyn, mae'r athrawon yn sicrhau bod rhediad da i’w gwersi. Maent yn rhannu’r nod yn glir ac yn defnyddio ystod eang o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion a'u holi'n effeithiol. Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig pwrpasol i'r disgyblion sy’n eu helpu i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a sut y gallant wella'u gwaith. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion adolygu a gwneud addasiadau i’w gwaith eu hunain ac i waith eu cyfoedion. Fodd bynnag, mae’r arfer effeithiol o ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion yn anghyson.

Mae athrawon yn asesu cynnydd a datblygiad unigolion a grwpiau penodol yn gynhwysfawr. Er enghraifft, maent yn adnabod y disgyblion hynny sydd mewn perygl o dangyflawni neu’r rhai sy’n fwy abl yn gynnar ac yn addasu’r ddarpariaeth yn unol â’r angen. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob un yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae’r staff yn darparu amgylchedd gofalgar, cefnogol a chroesawgar i’r disgyblion, lle mae pob un yn ymfalchïo mewn bod yn aelod gwerthfawr o ‘deulu’ yr ysgol. Mae’r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae gan y disgyblion falchder yn nhraddodiadau’r ardal a’u Cymreictod.

Mae gan y staff adnabyddiaeth gadarn o anghenion disgyblion, ac o ganlyniad, caiff trefniadau cefnogi eu llunio yn gynnar i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn gadarn. Mae aelodau staff yn wybodus ac yn cyflwyno ystod fwriadus o raglenni cymorth effeithiol i ddisgyblion i fynd i’r afael â’u lles emosiynol ac i wella’u hunan-barch. O ganlyniad, mae disgyblion yn derbyn cefnogaeth gynhwysfawr sy’n eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn nodwedd hynod gadarn. Mae gan bob disgybl sydd ag ADY gynllun addysg unigol, sy’n cynnwys targedau penodol y mae staff yn eu hadolygu gyda'u rhieni’n rheolaidd. Mae'r sgyrsiau anffurfiol dyddiol sy'n digwydd rhwng y staff cynorthwyol a'r athrawon yn eu galluogi i fonitro cynnydd y disgyblion hyn yn effeithiol ac i addasu’r ddarpariaeth yn amserol i fodloni unrhyw dargedau newydd sydd ganddynt. Mae cysylltiadau cadarn gydag ystod o asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth iaith a lleferydd a chwnsela, yn darparu cymorth arbenigol a buddiol i ddisgyblion sydd ei angen.

Mae’r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â sesiynau ymarfer corff mewn gwersi, a chlybiau allgyrsiol fel pêl-droed. Mae’r trefniadau effeithiol hyn yn ysgogi’r disgyblion i gadw’n heini ac yn dwysáu eu dealltwriaeth o

fyw'n iach. Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles emosiynol a iechyd corfforol disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn cefnogi disgyblion i feithrin agwedd bositif at ddatrys problemau a dyfalbarhau wedi eu hymgorffori'n ddwfn yn y gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agwedd disgyblion at eu gwaith, a'u gallu i oresgyn heriau yn llwyddiannus.

Mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd da i fod yn aelodau o'r amrywiol gynghorau. Mae'r staff yn sicrhau bod y cynghorau hyn yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae eu cyfraniad at waith yr ysgol a'r gymuned yn hynod werthfawr. Mae amgylchedd yr ysgol a'r gwasanaethau cydaddoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog disgyblion i ystyried safbwyntiau eraill yn sensitif, i gydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu gyda threfniadau clir ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar sefydlu amgylchedd diogel, dwyieithog a Chymreig i'w disgyblion a'u datblygu'n ddysgwyr gwybodus, mentrus a hyderus. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn glir i holl gymuned yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl staff yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu sy'n gadarn ac effeithiol.

Mae gan arweinwyr ar bob lefel ddisgwyliadau uchel o'u hunain, y staff, a'r disgyblion ac maent yn hyrwyddo lles pob un yn dda. Maent yn sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn cydweithio'n gynhyrchiol fel tîm ac maent yn modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarn at wella'r ysgol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn drylwyr ac mae arweinwyr yn barod i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thanberfformio, fel y bo'n briodol.  Mae aelodau'r uwch dîm arwain yn monitro cynnydd y staff yn erbyn eu targedau gwella yn dymhorol. Mae'r targedau hyn yn seiliedig ar gynnal a chodi safonau disgyblion, ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau gwella'r ysgol a datblygu medrau proffesiynol staff.

Mae proses hunanwerthuso'r ysgol yn gadarn ac yn cynnwys cydlynwyr ac aelodau'r uwch dîm arwain, yn ogystal â'r disgyblion sy'n barod i fynegi barn am eu dysgu a'r ddarpariaeth. Maent yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau a darpariaeth sy'n cynnwys teithiau dysgu, arsylwadau ffurfiol, craffu ar lyfrau, a holi disgyblion i adnabod y cryfderau ac unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. Maent yn ystyried y rhain yn fanwl i lunio blaenoriaethau a chamau perthnasol ar gyfer gwella. Mae'r blaenoriaethau diweddar yn cynnwys parhau i baratoi a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru a'r ddeddf anghenion dysgu ychwanegol newydd. Mae arweinwyr yn gosod cerrig milltir rheolaidd i werthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn ac yn addasu eu dulliau gweithredu yn briodol, yn ôl yr angen.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o waith yr ysgol ac maent yn defnyddio hynny i bennu blaenoriaethau gwella, a herio a chefnogi'r pennaeth, lle bo'r angen. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr berthynas gynhyrchiol â rhieni ac maent yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda nhw.  Er enghraifft, mae'r pennaeth yn anfon gwybodaeth i rieni am faterion perthnsaol am fywyd a gwaith yr ysgol yn wythnosol mewn cylchlythyr defnyddiol. Mae hyn yn galluogi rhieni i godi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn gyda'r ysgol yn ddiymdroi.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant cadarnhaol i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i'r holl staff. Caiff staff eu hannog i ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus trwy ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, secondiadau priodol neu dderbyn swyddi dros dro. Yn ddiweddar, mae staff wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol sy'n eu cefnogi i ddatblygu dulliau effeithiol er mwyn gwella safonau ysgrifennu, a datblygu medrau TGCh staff a disgyblion. Mae'r flaenoriaeth ar fireinio'r addysgu a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn monitro effaith cyfleoedd dysgu proffesiynol ar effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth a'r addysgu, ac ar gynnydd a lles disgyblion yn briodol.

Mae arweinwyr yn yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion y ddwy ffrwd ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Ers y cyfnodau clo diweddar, mae tueddiad gan ddisgyblion y ddwy ffrwd i siarad Saesneg gyda'i gilydd mewn sefyllfaoedd anffurfiol. At ei gilydd, nid yw disgwyliadau staff yn gyson wrth wella hyn ac i annog disgyblion ar draws yr ysgol i siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/07/2022